

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

Y Cynghorydd A. J. Williams

Ward:Coety

Plaid: Annibynnol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2018**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli **Coety** ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 212 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy [rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau](#) drwy ddilyn y ddolen hon.

Gweithgarwch Etholaeth

Rwy'n cyfarfod bob mis gyda Persimmon a Wales and West ynghylch materion adeiladu/datblygu parhaus yng Nghoety. Rwyf hefyd yn gohebu â Taylor Wimpey.

Rwyf wedi bod yn cysylltu â BT Openreach ynghylch materion band eang sydd heb eu datrys.

Rwyf wedi anfon taenlenni sy'n cynnwys manylion dros 166 o drigolion/stryd gyfan a gafodd broblemau gyda chyflenwi cynwysyddion ailgylchu ar ben yr atgyfeiriadau a wnaed. Rwyf wedi anfon 818 o negeseuon e-bost sy'n ymwneud â'm hetholaeth yn fy mlwyddyn gyntaf fel aelod etholedig dros Goety.

Rwyf wedi cefnogi Cyngor Cymdeithas Coety Uchaf gyda'i Gynllun Mynediad Cymunedol yn ogystal â chyfarfod â hwy, CBSP a Persimmon i ddatblygu'r gwaith o osod biniau ym Mharc Derwen a chwblhau parciau chwarae.

Rwyf wedi cynrychioli trigolion unigol a'u cefnogi mewn cyfarfodydd gyda CBSP a sefydliadau eraill fel Linc Cymru.

Rwyf wedi cysylltu â phrifyrdd CBSP ynghylch y materion draenio ar lonydd Coety a gwnaed gwaith i ddatrys hyn.

Rwyf wedi cefnogi'r ysgol gyda nifer o faterion diogelwch ac yn benodol ei phryderon ynghylch agor y man gollwng arfaethedig ac agor y fynedfa gefn i'r ysgol.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwy'n gwirfoddoli bob dydd Gwener yn Ysgol Gynradd Coety er mwyn gweithio gyda'r plant a'r gymuned ar brosiectau celf a gaiff eu harddangos ar ôl eu cwblhau. Roeddwn yn bresennol yn y ddau gasgliad sbwriel a drefnwyd ym Mharc Derwen.

Rwyf wedi bod yn gohebu â Charchar y Parc ac wedi cyfarfod â hwy ynghylch cynllun gwarchod cymdogaeth y byddaf yn gweithio arno gyda thrigolion yng Nghoety. Rwyf wedi cymryd rhan yn y gwaith o blannu cennin Pedr ar draws Coety, a ddarperir gan y cyngor cymuned, a gyrrais staff meddygol i Ysbyty Tywysoges Cymru ac oddi yno yn ystod yr eira yn gynharach yn y flwyddyn.

Rwyf wedi gweithio gyda CBSP a thrigolion ynghylch cyfleoedd chwaraeon i drigolion Coety a chafwyd cyllid i gyflwyno sesiynau cyn bo hir.

Rwyf wedi bod yn gwirfoddoli yn Ysgol Gynradd Coety ar brynhawn dydd Mawrth gan addysgu plant blwyddyn 2 am ddiogelwch ar y ffyrdd gyda thîm Kerbcraft CBSP.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Rwyf wedi mynychu pob cyfarfod PACT yn eglwys Mission Llidiart ers dechrau yn y rôl.

Rwyf wedi defnyddio fy nghronfa gweithredu yn y gymuned £5,000 i ddarparu diffibriliwr ar gyfer Ymatebwyr Cyntaf Coety a Phen-y-bont ar Ogwr. Rwyf hefyd wrthi ar hyn o bryd yn gweithio gydag Ysgol Gynradd Coety i ddarparu'r cyllid i brynu offer meithrinfa, gyda Brownis Coety a Bethesda Arts ar gyfer prosiect celf cymunedol.

Rwyf wedi helpu grŵp dawns lleol i drefnu digwyddiad er mwyn codi arian i gynrychioli Cymru yng Nghwpan Dawns y Byd yn Barcelona ym mis Mehefin.

Y Cyngorydd A J Williams:

Dyddiad: 22 Mai 2018